*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 316(6)(b) a (7)(f) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2017 Rhif (Cy. )

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

# LLYGREDD MOROL, CYMRU

# TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

# Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) (Diwygio) 2017

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/923 (Cy. 132)) ("y Prif Reoliadau"), sy'n darparu ar gyfer gwneud apelau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn hysbysiadau penodol a ddyroddir o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Prif Reoliadau i ddarparu ar gyfer gwneud apelau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn hysbysiadau sy'n amrywio, yn atal dros dro neu'n dirymu trwydded forol a ddyroddir o dan adrannau 72A(7) a 107A(4) o Ddeddf 2009.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn yng Nghymru. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 316(6)(b) a (7)(f) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2017 Rhif (Cy. )

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

# LLYGREDD MOROL, CYMRU

# TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

# Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) (Diwygio) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 108 o'r Ddeddf honno.

Yn unol ag adran 316(6)(b) a (7)(f) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

(**1**) 2009 p. 23; diwygiwyd gan Ran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3), mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) (Diwygio) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2017.

**Cymhwyso**

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer(**1**).

**Diwygio**

**3.** Mae rheoliad 3 (apelau yn erbyn amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwydded forol) o Reoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) 2011(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Caiff person y dyroddwyd hysbysiad iddo o dan—

(a) adran 72A(7) o Ddeddf 2009 (ffioedd pellach a godir os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod codi taliadau priodol); neu

(b) adran 107A(4) o Ddeddf 2009 (blaendaliadau ar gyfrif ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru);

apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn yr hysbysiad.";

(b) ym mharagraff (2) ar ôl "mharagraff (1)" mewnosoder "neu baragraff (1A)";

(c) ym mharagraff (3) ar ôl "mharagraff (1)" mewnosoder "neu baragraff (1A)".

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir wrth gyflawni gweithgareddau morol trwyddedadwy o ran Cymru a rhanbarth glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer o dan adran 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf honno. *Gweler* adran 322(1) o'r Ddeddf honno i gael diffiniad o "Welsh inshore region".

(**2**) O.S. 2011/923 (Cy. 132).